

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: diweddariad 2014

Gorffennaf 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/1698
Rhif dogfen:14/036

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Papur ymchwil

Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: diweddariad 2014

Gorffennaf 2014

Steve Boyce, Gareth England ac Alys Thomas

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o raglen ddeddfwriaethol pum mlynedd Llywodraeth Cymru hyd yn hyn, gan gynnwys manylion am y Biliau sydd wedi cael eu cyflwyno eisoes a'r rhai a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar gyfer sesiwn 2014-15 sydd i ddod.

Mae'r papur hefyd yn cynnwys manylion am ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar Filiau sydd eto i'w cyflwyno.

Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad am raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf 2014.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Biliau a gyflwynwyd yn sesiwn 2013-14	2
2.1. Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru).....	2
2.2. Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)	3
2.3. Bil Tai (Cymru)	3
2.4. Bil Addysg Uwch (Cymru).....	4
2.5. Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).	5
2.6. Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).....	7
3. Biliau a gyhoeddwyd ar gyfer 2014-15	8
3.1. Bil Cynllunio (Cymru).....	8
3.2. Bil Cymwysterau (Cymru).....	9
3.3. Bil Treftadaeth (Cymru)	11
3.4. Bil Rhentu Cartrefi (Cymru).....	14
3.5. Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru).....	15
3.6. Bil Llywodraeth Leol (Cymru)	16
3.7. Bil yr Amgylchedd (Cymru)	18
3.8. Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)	20
3.9. Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)	23
3.10. Bil Casglu a Rheoli Treth (Cymru).....	24
A. Atodiad A: tabl cryno	26

Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: diweddariad 2014

1. Cyflwyniad

Ar **12 Gorffennaf 2011**, gwnaeth y Prif Weinidog, y Gwir Anrhyd. Carwyn Jones AC, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn yn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru am y pum mlynedd nesaf.¹

Roedd y datganiad yn cynnwys manylion am **21 o Filiau** yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno yn ystod y pedwerydd Cynulliad hyd at etholiadau nesaf y Cynulliad ym mis Mai 2016. Ers hynny, mae'r Prif Weinidog wedi rhoi datganiadau deddfwriaethol blynyddol i'r Cynulliad er mwyn cyhoeddi pa Filiau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn honno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfanswm o **17 o Filiau** yn ystod y pedwerydd Cynulliad (ers mis Mai 2011). O'u plith:

- mae **13** wedi cael eu pasio gan y Cynulliad ac wedi cael Cydsyniad Brenhinol;²
- mae'r Cynulliad yn craffu ar **4** ar hyn o bryd.

Ceir rhagor o wybodaeth yn atodiad A.

Mae'r papur hwn yn rhoi: manylion am gynnydd Llywodraeth Cymru hyd yn hyn o ran ei rhaglen ddeddfwriaethol a gwybodaeth am y Biliau a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar gyfer sesiwn 2014-15. Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad am **raglen ddeddfwriaethol 2014-15** yn y Cyfarfod Llawn ar **15 Gorffennaf 2014**.

Mae pob un o'r Biliau a grybwyllwyd yn y papur hwn yn Filiau gan Lywodraeth Cymru ac **nid** Biliau a gynigiwyd gan Aelodau Cynulliad, pwyllgorau na Chomisiwn y Cynulliad.

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, [Cyfarfod Llawn: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16](#), 12 Gorffennaf 2011

² Sef: [Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2012](#); [Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion \(Cymru\) 2013](#); [Deddf Sgorio Hylendid Bwyd \(Cymru\) 2013](#); [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013](#).

2. Biliau a gyflwynwyd yn sesiwn 2013-14³

2.1. *Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)*

Ar **10 Mehefin 2013**, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford AC y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil newydd i roi mwy o hyblygrwydd i sefydliadau'r GIG i reoli eu cyllidebau yn gynnar yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. Byddai'r Bil yn cynnig y dylid newid y gofyniad statudol ar fyrddau iechyd lleol i fantoli eu cyllideb dros gyfnod o flwyddyn i gylch tair blynedd. Dywedodd y Gweinidog:

Un o anafteision mawr y gyfundrefn ariannol gyfredol yw y gall annog penderfyniadau ynghylch y flwyddyn gyfredol. Bydd y newid hwn yn helpu'r GIG i ganolbwyntio ar ei benderfyniadau cynllunio gwasanaethau, gweithlu ac ariannol dros gyfnod hwy yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar un flwyddyn, yn enwedig diwedd mis Mawrth.

Mae'n rhaid i mi fod yn gwbl eglur nad yw symud i gylch cynllunio ariannol tair blynedd yn golygu na ddylai byrddau iechyd reoli'u cyllid mewn ffordd gwbl drylwyr."

Mae Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol oll wedi argymhell y dylid cyflwyno fframwaith cynllunio mwy hyblyg ar gyfer y GIG, gan gynnwys rheoli'u sefyllfa ariannol ar draws blyneddau ariannol.

Disgwylir cyflwyno'r Bil yn gynnar yn nhyrneg nesaf y Cynulliad, ac os caiff ei gymeradwyo, bydd y gyfundrefn ariannol newydd yn dod i rym ym mlwyddyn ariannol 2014/15.⁴

Cafodd y Bil ei gyflwyno gan Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus ar **30 Medi 2013** a'i ailgyfeirio at y Pwyllgor Cyllid. Cytunwyd nad oedd angen trafodion Cyfnod 1 o ystyried y lefel o graffu ar y polisi hwn a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Diben y Bil yw newid dyletswyddau ariannol presennol Byrddau Iechyd Leol (BILlau) o dan *Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* o ofyniad statudol blynyddol na ddylai gwariant fynd y tu hwnt i derfyn adnoddau, i drefn sy'n ystyried y ddyletswydd ariannol i reoli ei adnoddau o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnod o dair blynedd.

Daeth [*Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) 2014*](#) yn gyfraith gwlad ar **27 Ionawr 2014**.

³ Mae Sesiwn y Cynulliad yn para rhwng 23 Medi 2013 a 18 Gorffennaf 2014.

⁴ [Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, *Deddfwriaeth newydd i ddiwygio trefn ariannol y GIG, 10 Mehefin 2013*](#)

2.2. *Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)*

Yn ystod ei gyhoeddiad ar y datganiad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar **16 Gorffennaf 2013**, nododd y Prif Weinidog, y Gwir Anrhyd. Carwyn Jones AC:

Rydym yn ymwybodol bod pori anghyfreithlon, neu fynd a gadael ceffylau, yn broblem gynyddol i awdurdodau lleol. Mae'r deddfwriaeth sydd ar hyn o bryd ar gael i awdurdodau lleol wedi bod yn annigonol i fynd i'r afael a'r materion ar y raddfa yr ydym yn eu profi ar hyn o bryd. Felly cynigir bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn cael yr offer i'w galluogi i atafaelu, corlannu a chael gwared ar geffylau, drwy werthu, ailgartrefu neu ladd heb boen, fel y bo'n briodol a phan fo amgylchiadau yn mynnu hynny. Rydym yn credu y bydd deddfwriaeth ar bori anghyfreithlon a mynd a gadael ceffylau a merlod yn darparu ateb effeithiol i'r broblem, trwy wneud i'r unigolion hynny sy'n pori ceffylau a merlod yn anghyfreithlon yn atebol am eu gweithredoedd, a thrwy fynd i'r afael â'r niwsans annerbyniol o bori anghyfreithlon sy'n achosi niwed i ddiogelwch y cyhoedd, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac yn gosod beichiau ariannol ar unigolion a'r trethdalwr. Bydd deddfwriaeth a fydd yn mynd i'r afael â'r broblem hon yn cael ei chyflwyno cyn diwedd y flwyddyn hon.⁵

Cyflwynwyd y Bil gan Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y pryd ar **14 Hydref 2013**. Ailgyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a chytunodd y gellid hepgor trafodion Cyfnod 1.

Diben y Bil yw rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol atafaelu, corlannu, gwerthu neu fel arall waredu ceffylau (gan gynnwys drwy drefnu i'w difa) sydd ar dir yn eu hardal heb awdurdod cyfreithlon ac i roi'r pŵer i awdurdodau lleol adennill costau lle y gellir adnabod y perchennog neu'r person sy'n gweithredu ar ran y perchennog.

Daeth yn gyfraith gwlad yng Nghymru ar **27 Ionawr 2014**.

2.3. *Bil Tai (Cymru)*

Cyflwynwyd y ***Bil Tai (Cymru)*** gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio ar **18 Tachwedd 2013**. Ailgyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Prif ddibenion y Bil yw:

- Cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid yn y sector rhentu preifat ac asiantau gosod a rheoli;
- Diwygio'r gyfraith ynglŷn â digartrefedd, gan gynnwys gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a chaniatáu iddynt ddefnyddio llety addas yn y sector preifat;

⁵ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion 16 Gorffennaf 2013](#)

- Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle y nodwyd angen.
- Cyflwyno safonau ar gyfer awdurdodau lleol ynglŷn â rhenti, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety;
- Diwygio system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai;
- Rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol godi 50 y cant yn fwy na chyfradd safonol y dreth gyngor ar gartrefi sydd wedi bod yn wag ers blwyddyn neu fwy;
- Cynorthwyo'r ddarpariaeth o dai gan Gymdeithasau Tai Cydweithredol.

Pasiwyd y Bil yng Nghyfnod 3 ar **1 Gorffennaf 2014**.

2.4. Bil Addysg Uwch (Cymru)

Y Bil Addysg Uwch (Cymru), a gyflwynwyd gan Huw Lewis AC, Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Nod y Bil yw deddfu er mwyn:

- sicrhau bod y sefydliadau hynny yng Nghymru y mae eu cyrsiau yn cael cymorth grant a benthyciadau addysg uwch a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu rheoleiddio mewn ffordd gadarn a chymesur;
- diogelu'r cyfraniad a wneir er budd y cyhoedd sy'n deillio o gymhorthdal ariannol addysg uwch Llywodraeth Cymru;
- parhau i ganolbwyntio'n benodol ar fynediad teg at addysg uwch;
- cynnal a diogelu ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd prifysgolion.

Mae'r Bil yn ceisio cyflawni'r amcanion hyn drwy:

- sefydlu fframwaith rheoleiddio newydd sy'n gymwys i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru sy'n ceisio dynodi ei gyrsiau addysg uwch yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr;
- sicrhau nad yw'r rheolaethau rheoliadol newydd yn dibynnu ar CCAUC yn darparu cyllid i'r sefydliadau a'r darparwyr hynny;
- ei gwneud yn ofynnol bod gan ddarparwyr addysg uwch sy'n cael cymhorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar ffurf benthyciadau ffioedd statudol neu grantiau i fyfyrwyr statws elusennol;
- ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr ymrwymo i weithgarwch o blaid cydraddoldeb mynediad at addysg uwch;

- adeiladu, hyd y gellir, ar y system bresennol o reolaethau a sefydlwyd gan CCAUC o dan ei delerau a'i amodau ariannu.

Mae'r Bil ynghanol **Cyfnod 1** ar hyn o bryd ac mae wedi cael ei ailgyfeirio at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

2.5. *Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)*

Cyflwynwyd y [Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#) gan Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar **30 Mehefin 2014**. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ailgyfeiro'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Roedd rhaglen pum mlynedd gychwynol Llywodraeth Cymru i'r Cynulliad hwn yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno *Bil Cam-drin Domestig (Cymru)* i osod dyletswydd ar y cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus i roi 'strategaeth cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod' ar waith.

Cyhoeddodd y Llywodraeth Cymru flaenorol 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel',⁶ sef ei strategaeth integredig chwe blynedd i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, ynghyd â **chynllun gweithredu ar gyfer 2010-13**⁷, ym **mis Mawrth 2010**. Roedd hyn yn dilyn strategaeth cam-drin domestig gynharach gan Lywodraeth Cymru, 'Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Y Dull Partneriaeth' a lansiwyd yn 2005.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad **Papur Gwyn** a chynigion polisi a chynigion deddfwriaethol i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, Carl Sargeant AC, ar **23 Tachwedd 2012**.⁸ Nododd y Gweinidog fod y cynigion yn y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar dri maes penodol:

- gwella arweinyddiaeth ac atebolrwydd;
- gwella addysg ac ymwybyddiaeth; a
- cryfhau gwasanaethau yng Nghymru.⁹

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **22 Chwefror 2013**.

⁶ Llywodraeth Cymru, [Yr Hawl i fod yn Ddiogel](#), Mawrth 2010

⁷ Llywodraeth Cymru, [Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig - Cynllun Gweithredu 2010-13](#), Mawrth 2010

⁸ Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau), [Cyhoeddi Ymgynghoriad y Papur Gwyn ar gynigion polisi a deddfwriaethol i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol](#) Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 23 Tachwedd 2012

⁹ Llywodraeth Cymru, [Ymgynghoriad ynglyn â deddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig \(Cymru\)](#) 26 Tachwedd 2012

Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd ei fod wedi sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar ddechrau 2012 'to inform the initial policy development and scope of the proposed legislation'.¹⁰ Cyflwynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen adroddiad ym **mis Awst 2012**, fodd bynnag, nid yw ar gael yn gyhoeddus. Hefyd, cynhaliodd Tîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig Llywodraeth Cymru dri digwyddiad ymgysylltu ledled Cymru rhwng **mis Ionawr a mis Chwefror 2013**, a oedd yn cynnwys dros 300 o unigolion, gan gynnwys grwpiau sector arbenigol a defnyddwyr gwasanaethau.¹¹

Cyhoeddwyd y *Bil Cam-drin Domestig, Trais ar sail Rhywedd a Thrais Rhywiol (Cymru)*¹² ar **30 Mehefin 2014**. Noda **Memorandwm Esboniadol** y Bil:

Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ("Awdurdodau Lleol") a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau a anelir at roi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Bil ymhellach yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol ar sut y dylent arfer eu swyddogaethau er mwyn cyfrannu at roi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer penodi Cynghorydd Gweinidogol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn rhoi arwydd pellach o ddiben ac effaith fwriadedig y Bil:

33. Prif nod polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw lleihau cyfraddau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Mae'r Bil yn cefnogi'r nod hwn trwy geisio sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ymateb yn well i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Prif nodau'r Bil yw gwella'r trefniadau ar gyfer:

- a. hybu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, atal hynny ac amddiffyn a chefnogi'r dioddefwyr;
- b. cryfhau arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- c. gwella cysondeb, ansawdd a dilyniant o ran darparu gwasanaethau yng Nghymru.

Ar 1 Gorffennaf 2014 gwnaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths AC, ddatganiad mewn Cyfarfod Llawn¹³ ar y Bil.

Mae'r Bil yng nghanol **Cyfnod 1** ar hyn o bryd.

¹⁰ Ibid

¹¹ Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ynglyn â deddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig (Cymru)* 26 Tachwedd 2012

¹² Llywodraeth Cymru, *Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* 30 Mehefin 2014

¹³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Datganiad mewn Cyfarfod Llawn Cofnod y Trafodion: Cyflwyniad i'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* 1 Gorffennaf 2014

2.6. *Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*

Cafodd y [*Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)*](#) ei gyhoeddi ar 7 **Gorffennaf 2014** a'i ailgyfeirio at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Ar **8 Mai 2012**, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd, John Griffiths AC, y byddai'n lansio ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy. Nododd y ddogfen ymgynghori mai diben y Bil fyddai:

Ddeddfu i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru; a
Chreu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru.¹⁴

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **18 Gorffennaf 2012**. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o'r ymatebion a ddaeth i law ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad.¹⁵

Ar ôl yr ymgynghoriad cychwynnol hwn cyhoeddwyd ymgynghoriad Papur Gwyn ar Fil Datblygu Cynaliadwy ar **3 Rhagfyr 2012**. Ceisiodd y Papur Gwyn farn yn benodol ar y canlynol:

cynigion ar gyfer dyletswydd newydd i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol sefydliadau dethol yng Nghymru;
y cynigion ar gyfer corff datblygu cynaliadwy annibynnol;
y cynnig i gyflwyno'r ddyletswydd yn raddol a'i rhoi ar waith, gan gynnwys yr amseru ar gyfer creu'r corff datblygu cynaliadwy annibynnol;
y cynigion i wella'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru.¹⁶

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **4 Mawrth 2013**.

Ym **mis Chwefror 2014** cyhoeddodd Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, "sgwrs genedlaethol" am nodau'r Bil.¹⁷ Cyhoeddwyd adroddiad interim o [*gynllun peilot y Sgwrs Genedlaethol*](#), yn crynhoi'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r sgwrs, ar **7 Gorffennaf 2014**.¹⁸

Mae'r Bil yng nghanol **Cyfnod 1** ar hyn o bryd.

¹⁴ Llywodraeth Cymru, [*Dogfen Ymgynghori: Cynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy*](#), Mai 2012, paragraff 1

¹⁵ Llywodraeth Cymru, [*Crynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy*](#), Gorffennaf 2012

¹⁶ Llywodraeth Cymru, [*Ymgynghoriad: Bil Datblygu Cynaliadwy - Papur Gwyn*](#), Rhagfyr 2012

¹⁷ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, [*gan Jeff Cuthbert AC, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Bil Cenedlaethau'r Dyfodol - y Gymru a Garem erbyn 2050*](#), 18 Chwefror 2014.

¹⁸ Cynnal Cymru, [*Adroddiad Interim o'r Sgwrs Genedlaethol beilot ar 'Y Gymru a Garem'*](#), Gorffennaf 2014

3. Biliau a gyhoeddwyd ar gyfer 2014-15

3.1. *Bil Cynllunio (Cymru)*

Ar **30 Medi 2011**, cyhoeddodd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y pryd, y câi **Grŵp Cynghori Annibynnol** ei sefydlu i lunio sylfaen tystiolaeth ar gyfer Bil Cynllunio. Cafodd y grŵp ei gadeirio gan gyn-Gyfarwyddwr Cymru yr Arolygiaeth Gynllunio, John Davies MBE, ac roedd yn cynnwys chwe chynrychiolydd arall a oedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o gefndiroedd cynllunio, gan gynnwys sefydliadau amgylcheddol, y diwydiant adeiladu, llywodraeth leol a chyfraith cynllunio¹⁹.

Cynhaliodd y grŵp ymgynghoriad rhwng 11 Tachwedd 2011 a 3 Chwefror 2012. Cyfarfu hefyd ar saith achlysur gwahanol rhwng mis Hydref 2011 a mis Mawrth 2012. Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'n cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2012.²⁰ Cyhoeddwyd adroddiad y grŵp ym **mis Medi 2012**²¹ ochr yn ochr â chanlyniadau arolwg ar agweddau'r cyhoedd²² a gwaith ymchwil arall i nodi ffyrdd o symleiddio'r system rheoli datblygu lle mae Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ar waith²³.

Ym **mis Ionawr 2013** cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd waith ymchwil gan Hyder Consulting i berfformiad rhoi caniatâd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy²⁴. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried adroddiad y Grŵp Cynghorol Annibynnol a gwaith ymchwil a chanfyddiadau eraill megis adroddiad Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad ym mis Ionawr 2011 ar ei ymchwiliad i gynllunio yng Nghymru wrth iddi baratoi'r Papur Gwyn a'r Bil drafft²⁵.

Cafodd cynnwys y Bil drafft ei lywio hefyd gan yr ymatebion a gyflwynwyd eisoes i'r Papur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw'.

¹⁹ Llywodraeth Cymru, [Grŵp Cynghori Annibynnol](#) 29 Tachwedd 2011

²⁰ Llywodraeth Cymru, [Adolygiad Cynllunio Cymru: Allbynnau, amseru a mesur llwyddiant](#), 9 Tachwedd 2011

²¹ Llywodraeth Cymru, [Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol](#), 17 Medi 2012

²² Llywodraeth Cymru, [Agweddau cyhoeddus tuag at y system gynllunio yng Nghymru](#), 17 Medi 2012

²³ Llywodraeth Cymru, [Dull Newydd o Reoli Datblygu yng Nghymru: Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru](#), Medi 17 2012

²⁴ Llywodraeth Cymru, [Gwerthuso cydsyniadau ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy](#), 30 Ionawr 2013

²⁵ Llywodraeth Cymru, [Sesiwn Holi ac Ateb ar y Bil Cynllunio](#), 8 Chwefror 2013.

Cyhoeddwyd [Bil Cynllunio drafft](#) a phapur ymgynghori, *Cynllunio Cadarnhaol*, ym **mis Rhagfyr 2013**. Yn y rhagair nododd y Gweinidog Tai ac Adfywio, Carl Sargeant AC:

Rwyf am i Lywodraeth Cymru bennu fframwaith deddfwriaethol a pholisi priodol sy'n rhoi eglurder i awdurdodau cynllunio, i'r rheini sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio ac i'r cyhoedd. Rwyf hefyd am i'r system, sy'n un hynod gymhleth ar hyn o bryd, gael ei symleiddio, a hoffwn weld mwy o gydweithredu wrth roi'r system gynllunio ar waith. Credaf y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, ynghyd â'r rheini a nodwyd yn y Bil drafft cynllunio (Cymru), yn ein tywys i'r cyfeiriad hwnnw.

Mae'n bwysig bod deddfwriaeth gynllunio yn cysylltu'n effeithiol â deddfwriaeth arall yn ein rhaglen ac rwy'n gweithio'n agos â'm cyd-Aelodau yn y Cabinet sy'n gyfrifol am Filiau'r Amgylchedd, Treftadaeth a Chenedlaethau'r Dyfodol i gyflawni hynny.²⁶

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **26 Chwefror 2014**. Craffodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y Bil drafft [cyn y broses ddeddfu](#) ym **mis Mawrth/Ebrill 2014**.

Disgwylir i'r Bil gael ei gyhoeddi yn ystod **hydref 2014**.

3.2. Bil Cymwysterau (Cymru)

Ar **29 Medi 2011**, cyhoeddodd Jeff Cuthbert AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd, adolygiad o'r cymwysterau a gynigir i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru.

Goruchwyliwyd yr adolygiad gan fwrdd prosiect annibynnol a oedd yn cynnwys cynghorwyr allanol a swyddogion mewnol Llywodraeth Cymru o dan gadeiryddiaeth Huw Evans OBE. Parodd yr adolygiad rhwng **mis Medi 2011 a mis Tachwedd 2012**; cyhoeddodd Bwrdd y Prosiect ei adroddiad terfynol a'i argymhellion²⁷ i'r Dirprwy Weinidog ar **28 Tachwedd 2012**.

Ymhlith y 42 o argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad roedd y canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) sy'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd pob cymhwyster nad yw ar lefel gradd sydd ar gael yng Nghymru. Ymhen amser, dylai Cymwysterau Cymru ddod yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau i ddysgwyr 14-19 oed.

²⁶ Llywodraeth Cymru, [Cynllunio Cadarnhaol](#), 4 Rhagfyr 2014.

²⁷ Llywodraeth Cymru, [Adolygiad o gymwysterau 14-19](#), 2013

- Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, mewn datganiad ysgrifenedig ar **5 Rhagfyr 2012**, y byddai'n derbyn **argymhelliad 5 Bwrdd yr Adolygiad ynglŷn â sefydlu Cymwysterau Cymru**. Cyhoeddodd hefyd mai Huw Evans OBE fyddai'n cadeirio grŵp gorchwyl a gorffen i geisio cyflwyno Cymwysterau Cymru yn gynnar.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau ddatganiad pellach yn y Cyfarfod Llawn ar **29 Ionawr 2013**, gan gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn derbyn pob un o'r 41 o'r argymhellion eraill yn yr adolygiad ar y cyfan.²⁸

Yn dilyn hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar sefydlu Cymwysterau Cymru, [*Ein Cymwysterau - Ein Dyfodol: Ymgynghoriad ar gynigion i sefydlu corff cymwysterau newydd i Gymru*](#) rhwng **1 Hydref 2013 a 20 Rhagfyr 2013**. Amlinellodd y ddogfen ymgynghori y byddai angen deddfwriaeth newydd er mwyn sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff statudol annibynnol.

Cynigiwyd yn yr ymgynghoriad y byddai Cymwysterau Cymru, ar ôl ei sefydlu, yn ymgymryd â swyddogaethau rheoleiddio presennol Llywodraeth Cymru ac, ymhen amser, y bydd hefyd yn cael swyddogaethau dyfarnu yn unol ag argymhellion adolygiad Huw Evans. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai Cymwysterau Cymru yn gorff dyfarnu llawn yn yr ystyr draddodiadol. Byddai ganddo reolaeth ganolog a strategol gyffredinol dros gymwysterau yng Nghymru ond byddai'n comisiynu cyrff dyfarnu megis Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) i ddarparu'r cymwysterau'n ymarferol.

Gwnaed datganiad ysgrifenedig²⁹ ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar **2 Mehefin 2014** gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Wrth gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion, dywedodd y Gweinidog:

Rwyf wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus, ac mae'r rhain yn llywio datblygiad cynlluniau ar gyfer y corff cymwysterau cenedlaethol ar gyfer Cymru a'r Bil a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad cyn diwedd y flwyddyn.

Craffodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y cynigion cyn y broses ddeddfu y disgwylir iddynt fod yn y *Bil Cymwysterau (Cymru)* ym mis Mai a mis Mehefin 2014. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Evans OBE, CBAC a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn ystod ei broses graffu.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar **7 Gorffennaf 2014**. Gwnaeth y Pwyllgor un argymhelliad cyffredinol, sef, oherwydd diffyg eglurder ynglŷn â sut y bydd y broses ddyfarnu yn weithredol a thra'n aros am ganlyniad yr adolygiadau a oedd yn mynd rhagddynt gan gynnwys yr Adolygiad o'r Cwricwlwm ac Asesu:

²⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, [*Cofnod y Trafodion*](#), 29 Ionawr 2014

²⁹ Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (Gweinidog Addysg a Sgiliau), [*ymgynghoriad a gweithgarwch ymgysylltu \(Cymru\) - crynodeb o'r ymatebion*](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 2 Mehefin 2014

Mae'r Pwyllgor yn credu y gellid gwneud hyn orau petai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil sy'n sefydlu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr yn unig. Dylid cyflwyno ystod lawn rôl a swyddogaethau Cymwysterau Cymru, gan gynnwys ei swyddogaethau fel corff dyfarnu, mewn Bil yn y dyfodol, ar ôl cwblhau adolygiadau, ac ar ôl ystyried yr holl faterion perthnasol yn llawn, ac unwaith y bydd gwybodaeth ynghylch sut y bydd y broses ddyfarnu'n gweithio'n ymarferol yn ddigon clir.³⁰

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud pedwar argymhelliad ychwanegol i Lywodraeth Cymru eu hystyried ochr yn ochr â'r argymhelliad cyffredinol hwn a saith argymhelliad arall y bydd ond angen eu hystyried os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer swyddogaethau rheoleiddio a dyfarnu yn y *Bil Cymwysterau (Cymru)*.

Disgwylir i'r Bil gael ei gyhoeddi yn ystod **hydref 2014**.

3.3. *Bil Treftadaeth (Cymru)*

Roedd datganiad y Prif Weinidog ar **12 Gorffennaf 2011** yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Bil Treftadaeth gyda'r nod o symleiddio a moderneiddio'r amrywiaeth eang o reolaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i helpu i ddiogelu asedau hanesyddol yng Nghymru³¹.

Roedd hyn yn adlewyrchu ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru i gyflwyno Bil Diogelu Treftadaeth er mwyn atgyfnerthu'r ffordd y caiff adeiladau rhestredig eu diogelu yng Nghymru.³² Mae hefyd yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyn ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Mawrth 2007³³ a Bil Diogelu Treftadaeth drafft yn San Steffan ym mis Ebrill 2008³⁴. Disgwylid i'r Bil gael ei gyflwyno'n ffurfiol gan y Llywodraeth Lafur ar y pryd yn San Steffan yn ystod sesiwn seneddol 2008-09 ond ni chafwyd yr amser i wneud hynny.

Lansiwyd **Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol**³⁵ Llywodraeth Cymru gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths AC, ym **mis Mai 2013**. Mae'r Strategaeth yn amlinellu rôl yr amgylchedd hanesyddol i sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol diriaethol i gymunedau yng Nghymru gyda'r nod o osod sylfeini ar gyfer Bil Treftadaeth arfaethedig.

³⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Craffu ar y Bil Cymwysterau Cymru arfaethedig cyn y broses ddeddfu](#), Gorffennaf 2014, t13

³¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, [Cyfarfod Llawn: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16](#), Gorffennaf 12

³² Plaid Lafur Cymru, [Maniffesto Llafur Cymru 2011: Sefyll cornel Cymru](#), tudalen 104

³³ Llywodraeth Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon, [Heritage Protection for the 21st Century](#), 8 Mawrth 2007

³⁴ [Y Bil Diogelu Treftadaeth drafft](#)

³⁵ Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru](#), Mai 2013

Yna, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad³⁶ ar ei chynigion ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ym **mis Gorffennaf 2013**. Yn dilyn hynny, mewn datganiad ysgrifenedig ym **mis Ionawr 2014**, nododd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried '[the] most appropriate means' i gyflawni'r cynigion a geir yn y papur, gan nodi:

Mewn rhai achosion, bydd angen cyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth, ond mewn achosion eraill, llunio canllawiau a chamau ymyrryd eraill fydd fwyaf priodol.³⁷

Mewn ymateb i nifer o ymatebion a dderbyniwyd ynglyn ag erlyn achosion o ddifrod anghyfreithlon i henebion yng Nghymru, cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad chwe wythnos arall³⁸ ar gynigion a fyddai'n anelu at gyflwyno mesurau ataliol a fyddai'n helpu i ddiogelu henebion rhestredig yng Nghymru.

Cyfeiriodd y Gweinidog at ganlyniad yr ymgynghoriad hwn a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf ar hynt y Bil mewn Datganiad Ysgrifenedig ar **12 Mehefin 2014**.³⁹

Nododd y Gweinidog fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos "strong support" i'r broses o ddiwygio *Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979* er mwyn ei gwneud hi'n anos i rywun a gyhuddir o wneud difrod i henebion rhestredig yng Nghymru ddefnyddio amddiffyniad o anwybodaeth am statws neu leoliad yr heneb.

Nododd y Gweinidog fod canlyniadau'r ddau ymgynghoriad "have shaped the Heritage Bill's proposals, which will contribute to three principal outcomes":

- Diogelu adeiladau a henebion rhestredig yn fwy effeithiol;
- Dulliau gwell o reoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy;
- Mwy o dryloywder ac atebolrwydd o ran penderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol.

³⁶ Llywodraeth Cymru, [*Dyfodol ein gorffennol: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru*](#), 2013

³⁷ Llywodraeth Cymru, John Griffiths (y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon), [*Cyhoeddi adroddiad cryno ar ôl yr ymgynghoriad Dyfodol ein Gorffennol: ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet*](#), 13 Ionawr 2014

³⁸ Llywodraeth Cymru, [*Diwygiadau arfaethedig i'r troseddau a'r amddiffyniadau troseddol yn adran 2, 28 a 42 o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979*](#), Mawrth 2014

³⁹ Llywodraeth Cymru, John Griffiths (y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon), [*Y Bil Treftadaeth - y wybodaeth ddiweddaraf ar ei hynt Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet*](#), 12 Mehefin 2014

Mae'r datganiad hefyd yn nodi gwybodaeth bellach ynglyn â mesurau i'w cynnwys yn y Bil:

Nod y Bil yw diogelu'r holl amrywiaeth o safleoedd archaeolegol sydd o bwys cenedlaethol yng Nghymru, **gan greu mesurau newydd a fydd yn caniatáu i Cadw gymryd camau prydlon ac effeithiol i atal difrod i henebion rhestredig. Nod cynigion eraill yw ei gwneud yn haws cymryd camau yn erbyn y rheini sydd wedi difrodi neu ddirywio henebion.**

Hefyd bydd y Bil yn galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym pe bai adeilad rhestredig dan fygythiad oherwydd gwaith nad yw wedi ei awdurdodi, a rhoi iddynt fwy o hyblygrwydd wrth ymdrin ag adeiladau hanesyddol sy'n dirywio oherwydd esgeulustod.

Byddai perchnogion neu ddatblygwyr sy'n ystyried gwneud defnydd newydd cynaliadwy o adeiladau hanesyddol nad ydynt yn rhestredig yn elwa ar gynigion y Bil ar **gyfer llacio'r amodau sydd ynghlwm wrth geisiadau am dystysgrifau imiwnedd rhag rhestru.**

Er mwyn creu cynlluniau integredig ar gyfer rheoli'r asedau dros gyfnod o flynyddoedd, byddai'r cynnig i sefydlu **cytundebau partneriaethau treftadaeth** yng Nghymru yn caniatáu i berchnogion asedau hanesyddol gytuno i drefniadau gwirfoddol gyda'r awdurdodau sy'n rhoi caniatadau. Byddai hynny'n rhyddhau'r perchnogion a'r awdurdodau rhag y baich o orfod ymdrin â'r un math o geisiadau dro ar ôl tro mewn perthynas â gwaith tebyg. Ar yr un pryd, byddai'n hyrwyddo'r defnydd o ddulliau gweithredu mwy cyson a chydlynus ar gyfer rheoli'r adeiladau neu'r henebion.

Byddai'r cynnig i greu sylfaen gadarn **ar gyfer cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n darparu gwybodaeth fanwl a chyngor i awdurdodau cynllunio lleol, yn sicrhau y byddai'r amgylchedd hanesyddol cyfan yn cael ei reoli mewn modd mwy cynaliadwy.**

Byddai'r strwythurau presennol ar gyfer dynodi asedau hanesyddol sydd o bwys cenedlaethol yn fwy agored a thryloyw pe byddem yn cyflwyno proses o ymgynghori'n ffurfiol â pherchnogion a chreu mecanweithiau ar gyfer adolygu penderfyniadau.

Bydd y Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer panel annibynnol i gynghori ar bolisi a strategaeth amgylchedd hanesyddol ar lefel genedlaethol yng Nghymru. Mewn Datganiad Ysgrifenedig blaenorol dyddiedig **10 Ebrill 2014**⁴⁰ cyhoeddodd y Gweinidog ei fwriad i sefydlu'r panel ar sail statudol drwy'r Bil, a nododd fod ei swyddogion wedi cynnal gweithdy ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol yn ddiweddar er mwyn llywio'r broses o ddatblygu'r cynigion deddfwriaethol.

Bwriedir i'r Bil Treftadaeth gael ei gyflwyno i'r Cynulliad yn ystod **gwanwyn 2015**⁴¹.

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, John Griffiths (y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon), [*Tuag at sefydlu panel cynghori ar yr amgylchedd hanesyddol i Gymru a chreu cynlluniau strategol ar gyfer sector yr amgylchedd hanesyddol*](#), Datganiad Ysgrifenedig 10 Ebrill 2014

⁴¹ Llywodraeth Cymru, [*Bil Treftadaeth*](#), [gwiriwyd 30 Mehefin 2014]

3.4. Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

Roedd ymgynghoriad y Papur Gwyn ar y Bil Tai, a gynhaliwyd rhwng **21 Mai a 17 Awst 2012**, yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno diwygiadau ym maes tenantiaeth, drwy Fil ar wahân yn ystod oes y Cynulliad hwn⁴². Ychwanegodd y Papur Gwyn y gall Bil o'r fath fod yn seiliedig ar gynigion a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad ym **mis Mai 2006** ar Rentu Cartrefi⁴³ ac yn y *Bil Cartrefi Rhent drafft a gyflwynwyd ar y cyd ag ef*⁴⁴.

Ar **6 Gorffennaf 2012**, cyhoeddodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar y pryd, ymgynghoriad ar 'Cynigion ar gyfer Gwell Sector Rhentu Preifat yng Nghymru'⁴⁵ a ddaeth i ben ar yr un dyddiad ag ymgynghoriad y Papur Gwyn ar 17 Awst 2012. Wrth gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, nododd y Gweinidog fwriad Llywodraeth Cymru i 'introduce a licensing scheme for landlords and letting and management agents'⁴⁶ yn y sector rhentu preifat. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis **Chwefror 2013**.⁴⁷

Ar **9 Ebrill 2013**, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad ychwanegol ar 'Renting Homes in Wales'⁴⁸ yn sgil galwadau gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn adolygu a diweddarau ei argymhellion ar gyfer diwygio cyfraith tai.⁴⁹

Ar ôl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith gael ei gyhoeddi ar **20 Mai 2013** cyhoeddodd ymgynghoriad Papur Gwyn ychwanegol gan y Gweinidog Tai ac Adfywio, Carl Sargeant AC sy'n dwyn y teitl 'Rhentu Cartrefi – ffordd well i Gymru'.⁵⁰ Wrth gyhoeddi'r cynigion, nododd y Gweinidog:

Mae'n cynigion yn gosod fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rhentu cartref. Credaf y bydd yn fodd i sicrhau system decach i'r landlord ac i'r tenant fel ei gilydd. Bydd y system hon hefyd yn fwy tryloyw ac yn fwy hyblyg. Bydd dau fath o gontract rhentu yn ganolog i'r trefniadau newydd:

- "Contract diogel" sy'n seiliedig ar y denantiaeth ddiogel a roddir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd;
- "Contract safonol" sy'n seiliedig ar y denantiaeth fyrddaliol sicr a ddefnyddir yn y sector rhentu preifat yn bennaf.

⁴² Llywodraeth Cymru, *Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell*, 21 Mai 2012, paragraff 21

⁴³ Comisiwn y Gyfraith, *Renting Homes: The Final Report, Volume 1: Report*, Mai 2006

⁴⁴ Comisiwn y Gyfraith, *Renting Homes: The Final Report, Volume 2: Draft Rented Homes Bill*, 2006 Mai 2013

⁴⁵ Llywodraeth Cymru, *Cynigion ar gyfer Sector Rhentu Gwell yng Nghymru*, 6 Gorffennaf 2012

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth), *Cynigion ar gyfer Sector Rhentu Gwell yng Nghymru – Papur Ymgynghori*, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 6 Gorffennaf 2014

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, *Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer Sector Rhentu Gwell yng Nghymru*, 2013 Chwefror 2013

⁴⁸ Comisiwn y Gyfraith, *Renting Homes in Wales*, 9 Ebrill 2013

⁴⁹ Comisiwn y Gyfraith, *Renting Homes in Wales*, 9 Ebrill 2013, paragraff 1.1

⁵⁰ Llywodraeth Cymru, *Papur Gwyn Rhentu Cartrefi: Ffordd well i Gymru*, 20 Mai 2013

Bydd y trefniadau newydd yn gymwys i landlordiaid cymdeithasol a'u tenantiaid, a hefyd i'r sector rhentu preifat. Bydd y trefniadau'n gwella effeithlonrwydd y system dai drwy drin pob math o landlordiaid yn yr un modd, gan olygu y byddant yn gallu cydweithio'n agosach i fodloni'r angen am dai. Bydd y trefniadau'n decach i denantiaid hefyd. Bydd ganddynt hawliau a chyfrifoldebau cyffelyb -ni waeth gan bwy y byddant yn rhentu eu cartref.⁵¹

Mae'r Datganiad Deddfwriaethol yn ychwanegu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu **cyflwyno'r Bil ar ddechrau 2015**.⁵² Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **16 Awst 2013**⁵³ ac mae **crynodeb o'r ymatebion** ar gael.

3.5. Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)

Ar **28 Mehefin 2012**, cyhoeddodd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, na fyddai darpariaethau ynglŷn ag arolygu'r gweithlu gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn y *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*⁵⁴ yn ôl y bwriad gwreiddiol,⁵⁵ a hynny yng ngoleuni sylwadau a wnaed gan randdeiliaid yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyn y Bil a ddaeth i ben ar **1 Mehefin 2012**.⁵⁶

Wrth gyhoeddi ei phenderfyniad, nododd y Dirprwy Weinidog hefyd ei bwriad i gyflwyno Bil gofal cymdeithasol ar wahân yn ystod y Cynulliad presennol er mwyn 'address the regulation and inspection of the social care workforce and social care services in Wales'.⁵⁷ Mewn datganiad ar wahân ar **27 Mehefin 2013**, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog ei bwriad 'i gyhoeddi Papur Gwyn ar ddyfodol rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth ym mis Medi eleni [2013], yn cael ei ddilyn gan Fil yn ystod oes y Llywodraeth hon.'⁵⁸

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn⁵⁹ ar reoleiddio ac arolygu ar 30 Medi 2013. Wrth lansio'r Papur Gwyn nododd y Dirprwy Weinidog:

Rydyn ni o'r farn bod y sefyllfa gyfredol o reoleiddio ac arolygu'n gwneud yn dda, ond rydyn ni hefyd yn sylweddoli bod angen mwy o hyblygrwydd arni i fodloni'r gofynion a'r heriau sy'n ddisgwyliedig yn y dyfodol - lle mae pobl yn byw'n hirach ac yn disgwyl mwy gan y gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu cynnal er gwaethaf yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Wrth i'r disgwyliadau hyn dyfu, felly hefyd mae'r modelau darparu gwasanaeth yn esblygu ac yn addasu i'w bodloni. Gall hyn arwain at fodolau newydd ac arloesol ond mae'r rhain yn eu

⁵¹ Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (y Gweinidog Tai ac Adfywio),

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/rentinghomes/?skip=1&lang=cy> Cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Rhentu Cartrefi - ffordd well i Gymru, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 20 Mai 2013

⁵² Llywodraeth Cymru, *Papur Gwyn Rhentu Cartrefi: Ffordd well i Gymru*, 20 Mai 2013, paragraff 2626

⁵³ Llywodraeth Cymru, *Papur Gwyn Rhentu Cartrefi*, 20 Mai 2013

⁵⁴ *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* erbyn hyn

⁵⁵ Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), *Diweddariad ar ôl yr Ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 28 Mehefin 2013

⁵⁶ Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad: Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*, 12 Mawrth 2013

⁵⁷ Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), *Diweddariad ar ôl yr Ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 28 Mehefin 2013

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), *Datganiad Polisi am Reoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol*, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 27 Mehefin 2013

⁵⁹ Llywodraeth Cymru, *Dyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru*, WG19628, Medi 2013

tro'n creu anghysondebau o fewn y system bresennol. Rhaid inni sicrhau bod modd rheoleiddio'r modelau gwasanaeth newydd hyn wrth iddynt ddatblygu. Felly, oni bai ein bod yn gweithredu nawr i ddarparu'r hyblygrwydd angenrheidiol, byddwn yn canfod yn fuan bod ein trefniadau rheoleiddio ar ei hôl hi ac yn gyfyngol. Yn ein barn ni, bydd y polisiau yn y Papur Gwyn hwn yn cefnogi'r rheoleiddwyr i gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau diwygiedig i helpu i wireddu'r uchelgeisiau rydyn ni wedi'u pennu ar gyfer gwella gofal a chymorth yng Nghymru.⁶⁰

Parodd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn tan **6 Ionawr 2014** a chyhoeddwyd crynodeb o'r⁶¹ ymatebion ar **28 Ebrill 2014**.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Bil ar reoleiddio ac arolygu yn ystod **gwanwyn 2015**⁶².

3.6. Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Sefydlwyd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ("Comisiwn Williams") gan y Prif Weinidog ym mis **Ebrill 2013**. Gyda chylch gwaith eang, cafodd y dasg o ystyried pob agwedd ar lywodraethu a chyflawni yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru (ac eithrio ad-drefnu byrddau ieuchyd lleol).

Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn Williams ym mis **Ionawr 2014**.⁶³ Ystyriodd agweddau ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o dan bum thema: cymhlethdod; maint a gallu; llywodraethu, craffu a darparu; arweinyddiaeth a diwylliant; a pherfformiad a rheoli perfformiad. Pwysleisiodd fod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn 'wynebu heriau difrifol a pharhaus' tra byddai effeithiau cynilo ar gyllidebau yn y sector cyhoeddus yn parhau am lawer o flynyddoedd. Fel y cyfryw, nododd na all gwasanaethau cyhoeddus ymdopi â'r pwysau hyn o dan eu trefn bresennol a bod angen sicrhau 'newid radical er mwyn i wasanaethau cyhoeddus oroesi mewn modd hyfyw a chynaliadwy'.

Fe'i gwnaed yn glir yn yr adroddiad bod angen i'w argymhellion gael eu gweithredu 'yn eu cyfanrwydd' a bod angen ymateb systemig i'r hyn sy'n heriau systemig. Ni ddylai Llywodraeth Cymru na'r Cynulliad ddewis a dethol o blith yr argymhellion a wnaed.

Canfu'r Comisiwn fod angen cymhellol dros newid yn strwythurau a chyfrifoldebau llywodraeth - gyda materion o ran maint yn ysgogi hyn. Credai'r Comisiwn fod sefydliadau bach yn y sector cyhoeddus (ac yn enwedig awdurdodau lleol bach) yn wynebu risgiau a chostau sylweddol fwy. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, daw'r adroddiad i'r casgliad y dylid uno'r 22 o awdurdodau lleol yng

⁶⁰ Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), [Dyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 30 Medi 2013

⁶¹ Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), [Dyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion](#), Datganiad Ysgrifenedig 28 Ebrill 2014

⁶² Ibid

⁶³ [Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Adroddiad, Ionawr 2014](#)

Nghymru yn 10 i 12 o unedau mwy o faint. Dywed mai'r egwyddorion allweddol a ddylai fod yn sail i'r newid hwn yw:

- Bod angen lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â bod ar raddfa fach tra'n peidio â pheryglu ymatebolrwydd democrataidd. Dywed yr adroddiad fod hwn yn 'ffactor cyfyngol' sy'n osgoi creu ardaloedd awdurdod lleol sy'n rhy fawr neu amrywiol, ac sy'n diystyru'r posibilrwydd o greu cyn lleied â 7 neu 8 o awdurdodau lleol sy'n dilyn ffiniau'r GIG yn agos;
- Y dylai'r ardaloedd newydd 'fod mor gydlynol â phosibl o ran eu hanghenion a'u nodweddion (gan ddefnyddio ffactorau megis teneurwydd poblogaeth, amddifadedd, y defnydd o'r Gymraeg, lefelau'r dreth gyngor a thwf economaidd fel sylfaen i'r cynigion);
- Y dylai'r diwygiadau leihau cymhlethdod a phennu ffiniau mwy cyson, a bod cysoni â'r GIG yn arbennig o bwysig yn ogystal â chymhwysedd i gael arian cydgyfeirio'r UE;
- Y dylid mynd ati i ddiwygio drwy uno awdurdodau lleol sy'n bodoli eisoes yn hytrach nag ail-lunio ffiniau'n gyfan gwbl. Bydd creu ffiniau newydd yn ymarfer hynod lafurus a chostus a byddai uno awdurdodau yn llawer cyflymach ac yn haws i baratoi ar ei gyfer a'i roi ar waith.

Yna, mae'r adroddiad yn cynnig pedwar opsiwn ar gyfer strwythur llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol, gan amrywio o 10 i 12 o awdurdodau lleol, ac mae'n pwysleisio mai penderfyniad i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad ydyw.

O ran amseriad y newid, pwysleisiodd yr adroddiad, oherwydd natur anghynaliadwy y strwythur cyfredol, dylai newid gael ei weithredu'n gyflym ac yn benderfynol. Dywed fod lle amlwg i awdurdodau lleol ddechrau cysoni eu strwythurau a'u gweithrediadau cyn iddynt uno'n ffurfiol. Noda fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol gytuno ar drefniadau'r rhaglen ar gyfer uno erbyn Pasg 2014 fan bellaf, ac y gall y rhaglen gyfan gael ei chwblhau gan Lywodraeth Cymru erbyn 2017-18 y dylid ei chwblhau erbyn hynny.

Yn y Cyfarfod Llawn ar **28 Ionawr 2014**, dywedodd y Prif Weinidog:

Byddwn yn gweithio ar ein hymateb i'r comisiwn yn y misoedd nesaf [...] Gadewch imi sôn am yr amseru. Mae'n eithaf clir o'r geiriad yn yr adroddiad y bydd angen bwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad yn gyflym. O safbwynt fy mhlaid i, byddwn yn ymgynghori rhwng nawr a diwedd mis Mawrth. Yna byddwn yn penderfynu ar safbwynt ffurfiol y blaid ac rydym yn bwriadu symud ymlaen wedyn ar sail y safbwynt hwnnw.⁶⁴

⁶⁴ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, 28 Ionawr 2014](#)

Yn benodol o ran uno ym maes llywodraeth leol, dywedodd y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar **21 Ionawr 2014** ei fod yn ‘hyderus y gellir ymdrin â hyn yn y rhaglen ddeddfwriaethol, os mai ewyllys y Cynulliad yw y dylai ddigwydd yr ochr hon i'r etholiad'.⁶⁵

Ar 8 Gorffennaf 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn, [*Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol*](#). Dywedodd datganiad y Gweinidog:

Bydd fy Mhapur Gwyn yn gofyn am sylwadau gan lywodraeth leol, y sector cyhoeddus ehangach a'r cyhoedd ar y meysydd a amlinellais. Bydd yn arwain at Fil, i'w gyflwyno ym mis **Ionawr 2015**, i ddarparu'r pwerau angenrheidiol er mwyn gallu uno awdurdodau mewn ffordd gydlynol, wedi'i chynllunio.

Bydd y Bil yn cynnwys pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i uno awdurdodau lleol sy'n dymuno gwneud hynny'n wirfoddol, cyn y brif raglen uno a diwygio. Bydd yn cynnwys darpariaethau i alluogi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i ddechrau ystyried a gwneud argymhellion mewn cysylltiad ag awdurdodau newydd arfaethedig. Bydd yn cynnwys darpariaeth i ganiatáu i'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol wneud penderfyniadau ynghylch taliadau i i aelodau awdurdodau lleol newydd ac awdurdodau cysgodol cyn iddynt gael eu sefydlu'n ffurfiol. Bydd y Bil hefyd yn cynnwys pŵer i sicrhau bod awdurdodau'n cydweithredu ac yn gweithio gyda'i gilydd at y diben penodol o gynllunio a pharatoi ar y cyd ar gyfer uno, a darpariaeth i atal gweithgareddau gan awdurdodau presennol neu gysgodol a allai ddod â niwed ariannol neu niwed i enw da unrhyw awdurdod newydd.

Mae hwn yn Fil a fydd yn braenaru'r tir ar gyfer uno, ond na fydd ynddo'i hun yn effeithio ar y brif raglen uno a diwygio. Bydd hynny'n digwydd ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016. Nid oes cynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth i uno a diwygio awdurdodau cyn mis Mai 2016. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu cyhoeddi Bil drafft ar gyfer ymgynghori yn yr hydref 2015 yn egluro sut y bydd y broses uno'n gweithio, gan gynnwys darpariaethau i alluogi'r broses ddiwygio ehangach yr wyf eisoes wedi'i hamlinellu. Bydd hyn yn cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol drafft.⁶⁶

3.7. Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Ar **30 Ionawr 2012**, lansiodd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y pryd 'Cynnal Cymru Fyw', Papur Gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru.⁶⁷ Mae'r Papur Gwyrdd yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Llywodraeth flaenorol rhwng mis Medi a mis **Rhagfyr 2010** ar fframwaith amgylchedd naturiol newydd i Gymru o'r enw 'Cymru Fyw'.⁶⁸

⁶⁵ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2014](#)

⁶⁶ [Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths AC, Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Papur Gwyn: Diwygio Llywodraeth Leol, 8 Gorffennaf 2014.](#)

⁶⁷ Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad: Cynnal Cymru Fyw*, 30 Ionawr 2012

⁶⁸ Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad: Cymru Fyw – fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd*, 15 Medi 2010

Bwriad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd oedd llywio **Bil yr Amgylchedd a'r Bil Cynllunio** (gweler adran 3.1). Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **31 Mai 2012** a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o'r ymatebion a ddaeth i law ym **mis Medi 2012**.⁶⁹

Yn ôl y Papur Gwyrdd, cynnig canolog Llywodraeth Cymru yw 'move to an ecosystems approach to environmental regulation and management'.⁷⁰ Yn benodol, bydd y dull gweithredu newydd yn anelu at wneud y canlynol:

gwella gwydnwch ac amrywiaeth ein hamgylchedd a'i bioamrywiaeth ategol;
ddarparu rheoleiddio symlech a mwy cost-efeithiol;
cynnig mwy o sicrwydd i benderfynwyr.⁷¹

Mewn datganiad a gyhoeddwyd ar **23 Hydref 2012**, gwnaeth y Gweinidog y sylwadau canlynol mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd:

Cam nesaf y gwaith cynllunio rheoli adnoddau naturiol yw sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer yr amgylchedd drwy gyflwyno'r Bil amgylchedd, ac fy mwriad yw cyhoeddi Papur Gwyn y flwyddyn nesaf. Wrth wneud hynny, byddwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r ystod lawn o bartneriaid a sectorau fel ein bod yn glir am yr heriau a'r gwrthdaro posibl a gwneud y gorau o'r synergeddau a chyfleoedd. Ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu ein dull o gynllunio adnoddau naturiol yn mynd law yn llaw â'n amcanion strategol ehangach, gan gynnwys ein ffocws ar wella'r system gynllunio.⁷²

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar **23 Hydref 2013** a daeth yr ymgynghoriad i ben ar **15 Ionawr 2014**.⁷³ Nododd y Papur Gwyn sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau er mwyn:

- uno'r fframweithiau statudol presennol ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru;
- sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru yr adnoddau deddfwriaethol er mwyn helpu i'w alluogi i ro prosesau rheoli adnoddau naturiol integredig ar waith;
- gweithredu er mwyn sicrhau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl a lleihau gwastraff;
- symleiddio ac egluro'r gyfraith o ran nifer o gyfundrefnau rheoleiddio amgylcheddol presennol.

⁶⁹ Llywodraeth Cymru, [Adroddiad ar ymatebion i'r ddogfen ymgynghori: 'Cynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd gan Lywodraeth Cymru ar ffordd newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru'](#) Medi 2012

⁷⁰ Ibid, tudalen 1

⁷¹ Ibid

⁷² [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn: Datganiad: Canlyniadau Ymgynghoriad 'Cynnal Cymru Fyw' 23 Hydref 2013](#)

⁷³ Llywodraeth Cymru, [Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd](#), 2013 Hydref 2013.

Cyhoeddodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd ar y pryd ddatganiad ysgrifenedig am ganlyniad yr ymgynghoriad ar **26 Mawrth 2014**. Nododd:

Mae'r ymgynghoriad pellach hwn yn ychwanegu at yr ymatebion a gafwyd i'r Papur Gwyrdd, Cynnal Cymru Fyw yn 2012. Y Papur Gwyrdd hwnnw oedd y sail ar gyfer datblygu cynigion y Papur Gwyn, sydd wedi atgyfnerthu'r cyfeiriad a gymerwn. Byddwn yn defnyddio'r naill ymgynghoriad a'r llall i ddatblygu'r polisiau a chanllawiau ategol hefyd, ac mae fy swyddogion yn dal i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod Bil yr Amgylchedd a'n polisiau ehangach yn cyflawni dros Gymru, yn awr ac yn yr hirdymor. I gefnogi hyn oll bydd gennym fesurau ymarferol megis y Gronfa Natur a fydd yn cyfrannu at y newid pellgyrhaeddol sydd ei angen i wreiddio'r dull cydlynol newydd o reoli ein hadnoddau naturiol er budd yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd.⁷⁴

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r Bil hwn yn ystod gwanwyn 2015.

3.8. Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Ar **29 Tachwedd 2012**, cyhoeddodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd i geisio barn ynghylch a oedd angen Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru. Yn y datganiad ategol, dywedodd y Gweinidog:

Mae llawer iawn eisoes wedi'i gyflawni i wella ac amddiffyn iechyd ein pobl. Er hynny, nid yw iechyd cyffredinol pobl Cymru yn cyfateb yn llwyr i'n dyheadau. Yn benodol, mae angen mynd ati ar frys i wneud mwy i atal afiechyd yn y lle cyntaf, ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes iechyd. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn cychwyn trafodaeth ehangach ar iechyd, ynghylch a fyddai cyflwyno deddfwriaeth newydd yn ffordd effeithiol o wneud cynnydd pellach mewn meysydd pwysig fel y rhain, gyda'r nod cyffredinol o sicrhau cymdeithas iachach a thecach. Mae'n rhoi cyfle gwerthfawr inni edrych i ba raddau y gallai deddfwriaeth ein helpu i gyflawni ein dyheadau cyffredinol ar gyfer iechyd a lles pobl Cymru, a'n helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau cymhleth sy'n wynebu ein hiechyd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Diben y Papur Gwyrdd hwn yw gweld a yw pobl o'r farn fod angen Bil i ymdrin â'r materion hyn yng Nghymru. Nid ymgynghori ar gynnig deddfwriaethol manwl yw ei fwriad, ond yn hytrach, hwn yw'r cam cyntaf tuag at ystyried y posibilrwydd o ddatblygu deddfwriaeth newydd.⁷⁵

⁷⁴ [Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, Crynodeb o ganlyniad ymgynghoriad Papur Gwyn ynghylch Bil yr Amgylchedd, 26 Mawrth 2014.](#)

⁷⁵ Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths, (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), [Ymgynghoriad Papur Gwyrdd i gasglu safbwyntiau ynghylch a oes angen Bil iechyd y cyhoedd yng Nghymru](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 6 Ionawr 2014

Awgrymodd y Papur Gwyrdd mai diben y Bil newydd fyddai ‘gosod dyletswyddau statudol ar gyrff i ystyried materion iechyd y cyhoedd’⁷⁶ a allai gwmpasu pob un neu rai o’r dulliau gweithredu canlynol:

- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried materion iechyd wrth lunio polisiâu;
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff priodol ystyried materion iechyd gyda’r nod o leihau anghydraddoldebau iechyd;
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff priodol ystyried materion iechyd gyda’r nod o atgyfnerthu’r gwaith o atal problemau iechyd; a
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff priodol ystyried materion iechyd gyda’r nod o atgyfnerthu cyfranogiad y gymuned mewn penderfyniadau sy’n effeithio ar eu hiechyd a’u gwasanaethau iechyd.⁷⁷

Cyfeiriodd y Papur Gwyrdd hefyd at enghreifftiau o Ddeddfau Iechyd y Cyhoedd yn **Sweden** a **Norwy** y dadleuodd y Llywodraeth eu bod yn ‘datganiad symbolaidd cadarn am bwysigrwydd sylfaenol ymdrech gan y boblogaeth gyfan i wella iechyd, ac yn cynnwys gofynion penodol o ran camau gweithredu er mwyn gwneud hynny.’⁷⁸

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **20 Chwefror 2013**. Yng ngoleuni’r 371 o ymatebion a gyflwynwyd, nododd y Gweinidog:

Roedd mwyafrif clir o’r ymatebwyr yn gefnogol i’r cyfeiriad polisi cyffredinol a’r testunau a archwiliwyd gan y Papur Gwyrdd. Roedd cefnogaeth yn arbennig i gyflawni dull o weithredu ‘Iechyd ymhob Polisi’ yng Nghymru, er mwyn rhoi sylw i’r amrywiol ffactorau ar draws meysydd polisi a all effeithio ar iechyd a lles yn gyffredinol. Roedd nifer o ymatebion hefyd yn cynnig safbwyntiau mwy cyffredinol neu’n canolbwyntio ar feysydd penodol o iechyd cyhoeddus, fel mynd i’r afael â’r defnydd o dybaco neu ymdrin â gordewdra. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cynnig cyfoeth o sylwadau, syniadau ac awgrymiadau am y rôl y gallai deddfwriaeth ei chwarae o ran gwella a diogelu iechyd yng Nghymru.⁷⁹

Ychwanegodd y Gweinidog y byddai’n parhau ‘i ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad wrth feddwl am y camau nesaf yn y gwaith pwysig hwn’.⁸⁰

⁷⁶ [Llywodraeth Cymru, Papur Gwyrdd: Ymgynghoriad i gasglu safbwyntiau ar b’un a oes angen Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru, 29 Tachwedd 2012](#), paragraff 4.5

⁷⁷ Ibid, paragraff 5.2

⁷⁸ Ibid

⁷⁹ Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), [Crynodeb o’r Ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyrdd i gasglu safbwyntiau ynghylch a oes angen Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 23 Mai 2013

⁸⁰ Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), [Crynodeb o’r Ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyrdd i gasglu safbwyntiau ynghylch a oes angen Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 23 Mai 2013

Ar 2 Ebrill 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar Iechyd y Cyhoedd sef Gwrando arnoch – Mae eich iechyd yn bwysig⁸¹. Roedd y cynigion yn cwmpasu amrywiaeth o faterion iechyd y cyhoedd, gan gynnwys camau i leihau'r niwed a achosir gan ysmegu, camddefnyddio alcohol a gordewdra. Daeth yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i ben ar 24 Mehefin 2014. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu'r Papur Gwyn ledled Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Yn ei ddatganiad wrth lansio'r Papur Gwyn tynnodd y Gweinidog sylw at ddwy thema a oedd wedi dod i'r amlwg o'r ymgynghoriad cynharach ar y Papur Gwyrdd: yr angen am ddull gweithredu amlasiantaethol cyffredinol i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd, a; chamau gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau penodol ym maes iechyd y cyhoedd. Nod y Papur Gwyn yw amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr olaf tra y bydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau cyffredinol ym maes iechyd y cyhoedd:

bydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol [teitl dros dro], sydd i'w gyhoeddi cyn hir, yn rhoi iechyd da yn ganolog i'r Gymru rydym am ei chreu at y dyfodol. Mae hyn yn cydnabod bod llawer o'r gwaith y mae angen ei wneud i wireddu'n dyheadau ar gyfer iechyd da a lleihau anghydraddoldebau yn dibynnu ar weithredu ar y cyd ar amryw ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a lles. Bil Cenedlaethau'r Dyfodol fydd yn cynnig fframwaith deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus i helpu i roi ystyriaeth i iechyd ym mhob polisi. Mae Biliau eraill y Cynulliad yn y rhaglen ddeddfwriaethol hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig drwy gymryd camau i fynd i'r afael â phenderfynyddion penodol ym maes iechyd a materion eraill sy'n cefnogi iechyd gwell.⁸²

Felly mae'r Papur Gwyn yn canolbwyntio ar gamau ataliol y gellid eu cymryd drwy Fil Iechyd y Cyhoedd er mwyn mynd i'r afael â rhai o achosion salwch y gellir eu hosgoi. Mae ei gynigion wedi'u trefnu'n dair thema:

- Gwella Iechyd Gydol Oes, sy'n cynnwys cynigion sy'n cyfyngu ar werthu a defnyddio tybaco, cyflwyno Isafswm Pris fesul Uned ar gyfer alcohol, a safonau maeth mewn lleoliadau penodol (drwy is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau).
- Datblygu asedau cymunedol ar gyfer iechyd, sy'n cynnwys cynigion i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau fferyllol lleol eu cynllunio a mynediad at doiledau i'r cyhoedd.
- Rheoleiddio er budd Iechyd, sy'n cynnwys cynigion ar gyfer Cofrestr Genedlaethol ar gyfer Triniaethau Arbennig. Byddai hyn yn darparu ar gyfer rheoleiddio safonau wrth ddarparu gwasanaethau aciwbigo, tatwïo, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis.

⁸¹ Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn [Gwrando arnoch – Mae eich iechyd yn bwysig](#), WG20703 2 Ebrill 2014

⁸² Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), [Lansio ymgynghoriad Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 2 Ebrill 2014

Byddai'r Gofrestr Genedlaethol ar gyfer Triniaethau Arbennig yn rheoleiddio rhai gweithdrefnau a oedd yn destun y Bil Tyllu Cosmetig (Oedran Cydsynio) (Cymru). Mae'r Papur Gwyn yn nodi i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal adolygiad llenyddiaeth ar dyllu cosmetig yn 2011/12 ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o risg gynyddol nac achosion o niwed i grwpiau oedran penodol:

O ganlyniad, mae gennym feddwl agored o hyd ynglŷn â rheoleiddio triniaethau tyllu cosmetig personol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad blaenorol o blaid cyfyngu triniaethau tyllu cosmetig personol i'r rhai sy'n 18 oed neu'n hŷn. Rydym yn awyddus i gasglu dystiolaeth ynglŷn â'r cynnig i gyflwyno cyfyngiad oedran ar gyfer triniaethau tyllu cosmetig personol. Nid dim ond atal cymhlethdodau iechyd fyddai diben cynnig o'r fath, ond atal pobl ifanc rhag rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd lle gallent gael eu niweidio. Unwaith y bydd y dystiolaeth hon wedi'i chasglu, caiff dadansoddiad manwl o oblygiadau cynnig o'r fath o ran Hawliau Dynol a CCUHP ei gynnal.⁸³

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r Bil hwn **cyn toriad haf 2015**.

3.9. Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)

Cynhaliwyd ymgynghoriad o'r enw '[Ymlaen mewn partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig](#)', gan Lywodraeth Cymru rhwng 26 Gorffennaf a 19 Hydref 2012.

Cynigiodd hwn amrywiol ddiwygiadau i'r fframwaith deddfwriaethol i blant ag anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gyflwyno cysyniad cyfreithiol mwy hyblyg a chynhwysol o anghenion dysgu yn lle'r diffiniad statudol presennol hwn. Cynigiodd hefyd gyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol integredig yn lle datganiadau AAA fel sail ar gyfer diwallu anghenion dysgu unigol plentyn neu berson ifanc.

Amlinellodd hefyd y cynigion ynglŷn â darparu addysg ôl-16 i ddysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru nifer o weithdai pellach â rhanddeiliaid yn ystod hydref 2013, a chynhaliwyd gwaith pellach er mwyn llywio'r broses o ddiwygio'r fframwaith statudol ar gyfer AAA / ADU⁸⁴.

I ddechrau, roedd Rhan 3 o'r Bil Addysg (Cymru) yn cynnwys rhai darpariaethau ynglŷn ag AAA. Cynigiodd newidiadau i'r ffordd y caiff derbyn dysgwyr ag AAA i ysgolion annibynnol ei gymeradwyo ac i'r trefniadau ar gyfer asesu anghenion dysgwyr ôl-16 ag AAA ac yna ddarparu ar eu cyfer.

Fodd bynnag, ar ôl proses graffu Cyfnod 1 a gwelliant a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod 2 yn dileu'r darpariaethau AAA yn y Bil, nododd y Gweinidog mewn

⁸³ Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn [Gwrando arnoch chi - Mae eich iechyd yn bwysig](#), WG20703 2 Ebrill 2014

⁸⁴ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen o Ymchwil Weithredu i Hysbysu'r Gwerthusiad o'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol](#), 2 Ebrill 2014

Datganiad gan y Cabinet ar **6 Ionawr 2014**⁸⁵ y byddai'r Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant yn ystod Cyfnod 2 yn y Pwyllgor. Tynnodd y Gweinidog sylw at y rôl yr oedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi'i chwarae o ran craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1, a chytunodd y byddai'n well, at ei gilydd, pe bai'r darpariaethau AAA hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o Fil Diwygio AAA cydlynol yn ddiweddarach yn ystod y Cynulliad hwn.

O ganlyniad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn, [Cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol](#), ar 22 Mai 2014. Mae'r papur yn nodi cynigion y Llywodraeth i gyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn lle'r ddeddfwriaeth bresennol gyda'r nod o greu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, prydlon ac effeithiol;
- system dryloyw a theg ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.⁸⁶

Daw'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i ben ar **25 Gorffennaf 2014**. O ran yr amserlen ar gyfer gweithredu, noda'r papur gwyn:

Rydym yn rhagweld na fydd Bil yn cynnwys y cynigion deddfwriaethol hyn yn cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn 2015. Ni allai unrhyw gynigion ddod i rym o safbwynt darpariaeth cyn blwyddyn academaidd 2016/17 ond bwriedir ymgynghori ynghylch yr union ddyddiad gweithredu.⁸⁷

3.10. Bil Casglu a Rheoli Treth (Cymru)

Bydd Bil Cymru sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar drethiant datganoledig drwy ddiwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r trethi datganoledig a nodwyd yn y Rhan hon yn dreth ar drafodion yng Nghymru sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir a threth yng Nghymru ar waredu i'w dirlenwi.

Pan gyhoeddwyd y rhain, ymatebodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid, mewn perthynas â'r dreth stamp a'r dreth dir:

The Assembly will [...] have to legislate to introduce replacement Welsh taxes, which will come into effect when the UK taxes are 'turned off' in Wales. An April 2018 date for introducing the new Welsh taxes is ambitious but achievable. I will continue to develop my plans to ensure that those taxes are simpler and fairer, while supporting jobs and growth.⁸⁸

⁸⁵ Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), [Bil Addysg \(Cymru\) - darpariaethau AAA](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 6 Ionawr 2014

⁸⁶ Llywodraeth Cymru, [Papur Gwyn - Cynigion deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol](#), 2014

⁸⁷ Llywodraeth Cymru, [Papur Gwyn - Cynigion deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol](#), 2014, t39

⁸⁸ BBC Cymru, [Finance Minister welcomes 'ambitious' targets for tax devolution](#), 20 Mawrth 2014.

Ym mis Mai 2014 dywedodd wrth y Pwyllgor Cyllid “there is no doubt that we will need a **tax collection and management Bill**” [*pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*]⁸⁹

Yn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf 2014 dywedodd y Prif Weinidog:

Er, wrth gwrs, nad yw ystyriaeth yn Senedd y DU wedi ei chwblhau hyd yn hyn, rwy'n credu ei bod yn rhesymol i Lywodraeth Cymru wneud cynlluniau paratoadol. Gallaf hysbysu'r Cynulliad, os bydd y Bil yn dod yn ddeddf—yn fras yn ei ffurf bresennol—byddai'n fwriad gennym ddod â Bil casglu a rheoli trethi ymlaen yn nhymor y Cynulliad hwn, a fydd yn rhoi pwerau casglu a rheoli trethi yng Nghymru. Byddai'r Bil yn sefydlu corff corfforaethol, a fyddai'n weithredol ar wahân i Weinidogion Cymru, ac yn ei freinio gyda'r pwerau cyfreithiol o gasglu a rheoli trethi. Byddai'r ddeddfwriaeth hefyd yn sefydlu proses gyfreithiol i sicrhau a diogelu hawliau trethdalwyr yn y taliad llawn a phriodol o drethi. Mae hwn yn gyfnod hanesyddol i Gymru: hwn fydd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth dreth y mae'r Cynulliad wedi gorfod ei ystyried, a bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer disodli treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi gyda threthi Cymru newydd, datganoledig o 2018 ymlaen.⁹⁰

Ar 16 Gorffennaf cyhoeddodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ddatganiad ysgrifenedig lle y dywedodd:

Rwy'n disgwyl y bydd y ddeddfwriaeth ar gasglu a rheoli trethi yn cael ei chyflwyno yn haf 2015. Dylai'r pwerau casglu a rheoli trethi gael eu deall yn iawn yng nghyd-destun y trethi penodol a gesglir ganddynt. Felly yng ngwanwyn 2015, byddaf yn cyhoeddi ymgynghoriadau ar ddisodli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn datblygu ein trethi mewn ffordd sy'n addas i Gymru, ac felly byddwn yn ymgynghori mewn modd agored ac eang ar y cam hwn, gyda'r bwriad o osod sylfaen ar gyfer deddfwriaeth yn gynnar yn nhymor nesaf y Cynulliad. Rwy'n rhagweld y bydd yr amseriad hwn yn ein galluogi i sicrhau bod y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer sefydlu'r trethi hyn yn cael eu pasio mewn pryd i'w gweithredu'n llawn cyn eu bod yn dod i rym ym mis Ebrill 2018.⁹¹

⁸⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid](#), 14 Mai 2014

⁹⁰ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, [Y Rhaglen Ddeddfwriaethol](#), 15 Gorffennaf 2014.

⁹¹ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid, [Datganoli Trethiant yng Nghymru: Ymgynghori a Deddfu](#) 16 Gorffennaf 2014 [cyrchwyd 16 Gorffennaf 2014]

A. Atodiad A: tabl cryno

Biliau a basiwyd

Teitl y Ddeddf	Dyddiad cyflwyno	Dyddiad Cydsyniad Brenhinol
<u><i>Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012</i></u>	28 Tachwedd 2011	29 Tachwedd 2012
<u><i>Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013</i></u>	23 Ebrill 2012	4 Mawrth 2013
<u><i>Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013</i></u>	28 Mai 2012	4 Mawrth 2013
<u><i>Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013</i></u>	Gorffennaf 9 2012	29 Ebrill 2013
<u><i>Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013</i></u>	26 Tachwedd 2012	30 Gorffennaf 2013
<u><i>Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013</i></u>	3 Rhagfyr 2012	10 Medi 2013
<u><i>Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013</i></u>	18 Chwefror 2013	4 Tachwedd 2013
<u><i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i></u>	28 Ionawr 2013	1 Mai 2014
<u><i>Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014</i></u>	29 Ebrill 2014	27 Ionawr 2014
<u><i>Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014</i></u>	14 Hydref 2013	27 Ionawr 2014

<u><i>Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014</i></u>	30 Medi 2013	27 Ionawr 2014
<u><i>Deddf Addysg (Cymru) 2014</i></u>	1 Gorffennaf 2013	12 Mai 2014
<u><i>Bil Sector Amaethyddol (Cymru) [Bil Brys]</i></u>	<u><i>Dogfen Ymgynghori</i></u> (1 Mai 2013 - 26 Mehefin 2013)	Gydsyniad Brenhinol 31 Gorffennaf 2014 ar ôl dyfarniad y Goruchaf Lys ar 9 Gorffennaf 2014

Biliau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno ac y mae'r Cynulliad wrthi'n craffu arnynt ar hyn o bryd

Teitl y Bil	Papur Gwyn / Bil Drafft / Dyddiadau ymgynghori	Dyddiad cyflwyno
<u><i>Bil Tai (Cymru)</i></u>	<u><i>Dogfen Ymgynghori</i></u> (8 Rhagfyr 2011 - 17 Chwefror 2012) <u><i>Papur Gwyn</i></u> (21 Mai 2012 - 17 Awst 2012)	18 Tachwedd 2013
<u><i>Bil Addysg Uwch (Cymru)</i></u>	<u><i>Papur Gwyn</i></u> ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) (2 Gorffennaf 2012 - 24 Medi 2012) <u><i>Ymgynghoriad Technegol</i></u> ar y Bil Addysg Uwch (Cymru) (20 Mai 2013 - 29 Gorffennaf 2013)	19 Mai 2014
<u><i>Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)</i></u>	<u><i>Papur Gwyn</i></u> (26 Tachwedd 2012 - 22 Chwefror 2013)	1 Gorffennaf 2014

<u>Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</u>	<u>Dogfen Ymgynghori</u> (8 Mai 2012 - 18 Gorffennaf 2012) <u>Papur Gwyn</u> (3 Rhagfyr 2012 - 4 Mawrth 2013)	7 Gorffennaf 2014
--	--	-------------------

Biliau ar gyfer sesiwn 2014-15

<i>Bil Cynllunio</i>	<u>Papur Gwyrdd</u> ar Gynnal Cymru Fyw (30 Ionawr 2012 - 31 Mai 2012) Papur Gwyn. ⁹²	Hydref 2014
<i>Bil Llywodraeth Leol</i>	Papur Gwyn, <u>Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol</u>	Hydref 2014
<i>Bil Cymwysterau</i>	<u>Ein Cymwysterau - Ein Dyfodol: Ymgynghoriad ar gynigion i sefydlu corff cymwysterau newydd i Gymru</u>	Hydref 2014
<i>Bil Treftadaeth</i>	<u>Dogfen Ymgynghori</u> ar gynigion ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru (18 Gorffennaf 2013 - 11 Hydref 2013) <u>Dogfen Ymgynghori</u> ar ddiwygiadau arfaethedig <i>Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979</i> (3 Mawrth 2013 - 14 Ebrill 2014)	Gwanwyn 2015
<i>Bil Rhentu Cartrefi</i>	<u>Papur Gwyn</u> (20 Mai 2013 - 16 Awst 2013)	Gwanwyn 2015

⁹² Llywodraeth Cymru, [Bil Cynllunio: amserlen](#), 23 Ebrill 2013

<i>Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol</i>	<u>Dyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru,</u>	Gwanwyn 2015
<i>Bil yr Amgylchedd</i>	<u>Papur Gwyrdd</u> ar Gynnal Cymru Fyw (30 Ionawr 2012 – 31 Mai 2012)	Gwanwyn 2015
<i>Bil Iechyd y Cyhoedd</i>	<u>Papur Gwyrdd</u> (29 Tachwedd 2012 - 20 Chwefror 2013)	Gwanwyn 2015
<i>Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)</i>	<u>Papur Gwyn</u> ar gynigion ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (22 Mai 2014 – 25 Gorffennaf 2014)	Gwanwyn 2015
<i>Bil Casglu a Rheoli Trethi</i>	<u>Datganiad Ysgrifenedig</u>	Sesiwn 2014-15



15 18



15:18